Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Brynsiencyn

Brynsiencyn
Llanfairpwll
LL61 6HZ

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Brynsiencyn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Brynsiencyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Ysgol Gymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 35 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 29 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | * |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 12.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 37.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 65.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2025 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 04/12/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 29/06/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Brynsiencyn yn ysgol hapus, ofalgar a chynhwysol lle mae’r disgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae’r ysgol yn cynnig cwricwlwm cyfoethog sy’n ystyried y cyd-destun lleol yn effeithiol gyda llawer o ymweliadau addysgol sy’n helpu disgyblion i werthfawrogi eu hardal a’u treftadaeth.

Mae lles a diogelwch disgyblion yn flaenoriaeth glir. Mae staff yn gwrando ar lais y disgyblion ac yn rhoi cyfleoedd pwrpasol iddynt gyfrannu at eu dysgu. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf yn mwynhau dysgu ac yn dangos agweddau cadarnhaol iawn tuag at yr ysgol.

Ar draws yr ystod oedran, mae’r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion yn effeithiol. Mae athrawon yn darparu ystod fwriadus o weithgareddau ymarferol sy’n datblygu annibyniaeth, medrau datrys problemau a chwilfrydedd y disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r ysgol hefyd yn hyrwyddo gwerthoedd megis tegwch, parch a gofal yn bwrpasol, trwy wasanaethau a thrafodaethau dosbarth.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau llafar da er bod tueddiad i wallau iaith effeithio ar hyder ychydig o ddisgyblion i fynegi eu hunain yn Gymraeg. Mae diwylliant cryf o ddarllen wedi’i sefydlu ar draws yr ysgol, a gyda chefnogaeth effeithiol gan staff, rhieni a gofalwyr, mae disgyblion yn datblygu eu medrau’n gadarn. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Er hyn, nid oes digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion ysgrifennu darnau estynedig ar draws ystod o ffurfiau. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau rhifedd a digidol ac yn eu cymhwyso’n fedrus mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

Mae cymorth rhagorol ar gael i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae’r athrawon a’r cymorthyddion yn gweithio’n agos gydag asiantaethau allanol i sicrhau bod disgyblion yn cael cefnogaeth gadarn i hyrwyddo a datblygu eu medrau a’u hyder.

Mae’r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth glir ac uchelgeisiol ar gyfer yr ysgol ac yn gweithio’n effeithiol gyda staff, llywodraethwyr a’r gymuned. Mae’r corff llywodraethol yn cefnogi’r ysgol yn llwyddiannus gan ganolbwyntio’n bwrpasol ar ddatblygu’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Ddatblygu medrau iaith lafar Cymraeg disgyblion ymhellach

A2 Cysoni cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu’n estynedig mewn gwahanol gyd-destunau

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Gynradd Brynsiencyn yn gymuned hapus a gofalgar lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cyfoethog sydd wedi ei wreiddio yn y gymuned leol ym Môn. Mae ymweliadau addysgol yn atgyfnerthu hyn yn llwyddiannus ac yn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o'u milltir sgwâr. Mae'r staff yn canolbwyntio'n fuddiol ar gynnal lles y disgyblion, er enghraifft wrth roi cyfleoedd iddynt gyfrannu at yr hyn yr hoffent ei ddysgu . O ganlyniad, mae agweddau'r rhan fwyaf o ddisgyblion at eu dysgu yn dda iawn. Mae diwylliant cryf o ddiogelu disgyblion yn amlwg yn yr ysgol ac mae gan staff ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldeb i gadw disgyblion yn ddiogel.

Mae'r staff yn darparu cyfleoedd buddiol i'r plant ieuengaf ddatblygu eu medrau trwy ddarpariaeth fuddiol yn y dosbarth dysgu sylfaen. Mae ystod briodol o adnoddau hygyrch yn cefnogi disgyblion yn dda wrth iddynt ymchwilio a datrys problemau. Er enghraifft, maent yn mwynhau ymchwilio wrth ddatrys problem sut i gael yr wyau i rolio lawr y peipiau a chyrraedd gwaelod y llwybr. Maent yn addasu eu dull yn fedrus yn sgil cael adborth gan ddisgyblion hŷn.

Mae'r disgyblion yn dysgu am elfennau moesol a chymdeithasol wrth drafod agweddau fel stereoteipio yn nosbarth y disgyblion hŷn. Ceir gwasanaethau rheolaidd lle mae'r ysgol gyfan yn dod at ei gilydd gan ystyried gwerthoedd pwysig fel tegwch a gofal mewn cymdeithas.

Mae medrau llafar llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn magu hyder a chywirdeb cynyddol wrth adrodd straeon yn frwdfrydig gyda'i gilydd. Mae'r disgyblion hŷn yn meddwl yn ofalus cyn mynegi barn wrth drafod eu safbwyntiau am wahanol faterion, er enghraifft wrth drafod pam y dylai FIFA ddod â chystadleuaeth cwpan y byd i Gymru yn 2030. Er hyn, mae ychydig o wallau ieithyddol yn tueddu i lesteirio gallu lleiafrif o ddisgyblion i fynegi eu hunain yn hyderus yn y Gymraeg.

Ar draws yr ysgol, mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cryf o ddarllen gan fuddsoddi mewn adnoddau buddiol ar gyfer y disgyblion. Mae'r athrawon a'r staff cymorth yn rhyngweithio'n effeithiol â rhieni a gofalwyr er mwyn annog ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd mwynhau darllen mewn gwahanol ffurfiau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da, gyda rhaglenni cefnogi a gweithgareddau pwrpasol yn cefnogi hyn yn fuddiol. Mae'r disgyblion hŷn yn datblygu uwch fedrau darllen cadarn wrth ymateb i dasgau sydd wedi eu cynllunio'n ofalus.

O oedran cynnar, mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau modur mân yn gyson, er enghraifft wrth iddynt arbrofi gyda chreu marciau gan ddefnyddio gwahanol offer. Mae

hyn yn datblygu'n effeithiol wrth iddynt ysgrifennu'n gynyddol hyderus a chywir. Erbyn brig yr ysgol, mae llawer yn ysgrifennu'n fedrus ar gyfer ystod o ddibenion. Er hyn, nid oes cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig mewn amrywiol ffurfiau.

Mae'r staff yn darparu amrediad cyfoethog o brofiadau mathemateg a rhifedd ar gyfer y disgyblion. Maent yn holi'r disgyblion yn effeithiol gan gefnogi eu dealltwriaeth yn bwrpasol. Ceir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddewis her eu gweithgareddau sy'n meithrin eu hannibyniaeth yn llwyddiannus. Mae'r staff yn darparu adborth buddiol iddynt a chyfleoedd ystyrlon i wella eu gwaith. Mae athrawon yn olrhain cynnydd yn bwrpasol er mwyn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael eu herio i ddatblygu eu medrau.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cymhwyso'u medrau digidol yn hynod effeithiol ar draws y cwricwlwm. Yn y dosbarth dysgu sylfaen, er enghraifft, maent yn cyfarwyddo crwydryn rhaglenadwy i ddilyn taith sy'n efelychu stori Jac a'r Goeden Ffa. Darperir cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion hŷn atgyfnerthu eu medrau llythrennedd a rhifedd trwy ddefnyddio amrediad buddiol o offer digidol.

### Ciplun - Disgyblion hŷn yn meithrin annibyniaeth yn eu medrau digidol

Mae athrawon yn defnyddio adborth amserol yn effeithiol i gefnogi disgyblion i wirio, gwerthuso a gwella eu gwaith yn barhaus. O ganlyniad, mae'r disgyblion hŷn yn cymryd perchnogaeth gynyddol o'u dysgu ac yn datblygu eu hannibyniaeth yn fwriadus wrth ddefnyddio eu medrau digidol. Wrth fireinio'r medrau hyn, mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu medrau digidol manwl y disgyblion. Er enghraifft, maent yn defnyddio'u medrau i ddadansoddi eu gwaith dylunio digidol, gan ystyried ystod eang o nodweddion, cyn cymhwyso'r hyn y maent wedi ei ddysgu i wella eu gwaith eu hunain. Mae hyn, yn ei dro, yn cefnogi llawer i gynhyrchu gwaith estynedig a chreadigol o safon uchel.

Mae'r ysgol yn cydlynu cymorth effeithiol iawn ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac yn gweithio mewn partneriaeth agos ag asiantaethau allanol, yn ôl yr angen. Mae athrawon a chymorthyddion yn darparu cefnogaeth trwy raglenni cefnogi buddiol sy'n datblygu medrau a magu hyder disgyblion yn llwyddiannus. Un o nodweddion cryfaf yr ysgol yw'r ddarpariaeth gynhwysol sy'n treiddio trwy bob agwedd o'i gwaith.

Mae'r cyngor ysgol yn trafod elfennau o'r ddarpariaeth yn rheolaidd ac yn cyfrannu at gyfleoedd ar gyfer codi arian at achosion da trwy drefnu gweithgareddau fel y Ffair Nadolig. Mae hyn yn datblygu medrau arwain gwerthfawr ynghyd â'u hymwybyddiaeth o bwysigrwydd cydweithio o fewn cymuned yr ysgol a thu hwnt.

Ers ei benodiad, mae'r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol wedi ei seilio ar eiriau anthem yr ysgol, sef 'Ysgol Brynsiencyn, dyma lle ma 'nghalon i.' Mae'n gweithio'n angerddol er mwyn sicrhau bod disgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion a'u bod

yn cael cefnogaeth garedig. Mae'n gosod cyfeiriad strategol clir ac yn cydweithio'n effeithiol â holl gymuned yr ysgol. Mae'n cael cefnogaeth fuddiol gan dîm o athrawon a chymorthyddion ymroddgar sy'n cydweithio'n frwdfrydig er mwyn darparu gweithgareddau difyr a phwrpasol ar gyfer y disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn darparu cefnogaeth effeithiol i'r ysgol ac mae eu rôl fel ffrind beirniadol yn datblygu'n briodol. Mae gan yr aelodau gyfrifoldebau penodol ar gyfer gwahanol agweddau o waith yr ysgol, ac maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd er mwyn craffu ar y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion. Mae hyn yn eu cefnogi i ddeall cryfderau'r ddarpariaeth a'r effaith ar gynnydd disgyblion.

O dan arweiniad cadarn y pennaeth, mae staff yn cwblhau ystod effeithiol o weithgareddau hunanwerthuso sy'n canolbwyntio'n fuddiol ar gynnydd a lles disgyblion. Mae hyn yn arwain at adnabod blaenoriaethau gwella addas, ynghyd â sefydlu trefniadau pwrpasol ar gyfer mynd i'r afael â nhw. Enghraifft nodedig o effaith y gwaith hwn yw'r modd mae'r ysgol wedi cryfhau'r diwylliant o foddhad disgyblion mewn darllen, a hybu eu cynnydd yn effeithiol.

Darperir profiadau dysgu proffesiynol buddiol ar gyfer yr holl staff. Maent yn cael cyfleoedd rheolaidd i drafod a rhannu arferion effeithiol yn fewnol. Yn ogystal, maent yn mynychu hyfforddiant perthnasol yn lleol a thu hwnt, a rhannu gwybodaeth defnyddiol gyda'u cydweithwyr. Mae hyn yn grymuso eu gwaith fel arweinwyr yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr a staff wedi sefydlu ystod o bartneriaethau buddiol sy'n cryfhau a chyfoethogi'r ddarpariaeth. Maent yn sicrhau cydweithio agos â gwasanaethau'r awdurdod lleol ac asiantaethau lleol. Mae hyn yn datblygu arbenigeddau staff ac yn cryfhau'r arlwy o weithgarwch y mae'r ysgol yn ei ddarparu. Mae cysylltiadau cryf wedi eu datblygu gyda'r cyngor cymuned lleol sy'n canolbwyntio ar wella a chyfoethogi amgylchedd yr ysgol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/09/2026